


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Laser Micromachining Ltd

Europe & Wales: Investing in your future
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Wedi'i greu fel menter ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, mae Laser Micromachining Ltd (LML) wedi bod yn tyfu'n gyson yng ngogledd Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Heddiw mae'n un o brif ddarparwyr gwasanaethau gweithgynhyrchu laser y DU.

Mae LML yn arbenigo mewn darparu gwasanaeth cyflawn i fusnesau o ran datblygu a chynhyrchu cenedlaethau newydd o gynnyrch bach iawn. Mae hynny'n golygu bod angen datblygu prosesau a pheiriannau laser blaengar i dorri, drilio a pheiriannu deunyddiau ar gyfer cydrannau bach iawn. Ymysg y marchnadoedd ar gyfer y cynnyrch mae cwmnïau o'r radd flaenaf sy'n ymwneud â biotechnoleg feddygol, ynni adnewyddadwy a micro electroneg – pob un wedi'u cydnabod fel sectorau â photensial mawr ar gyfer twf.

Dros y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyngor arbenigol, personol drwy'r rhaglen Arloesi ar gyfer Busnes, ac wedi helpu i ariannu wrth i'r cwmni geisio gwneud buddsoddiadau strategol allweddol. Mae'r cymorth yn cynnwys mewnbwn ariannol fesul cam i lunio a datblygu prosesau micro ddrilio newydd, yn cael ei ddilyn gan brosesau peiriannu laser newydd, y ddau yn deillio o raglen SMARTCymru Llywodraeth Cymru. Nawr mae LML yn cynnig cyfleuster peiriannu laser o'r radd flaenaf, sy'n unigryw i Gymru.

Sefydlodd Nadeem Rizvi a Julian Burt y busnes yn uned hybu fodern Llywodraeth Cymru, cyn ehangu i eiddo mwy yn Llanelwy.

Dywed y Rheolwr Gyfarwyddwr, Nadeem Rizvi: "Roedd yr arian yn help mawr i ddechrau'r busnes ac fe roddodd sylfaen cadarn i ni dyfu'r cwmni. Rydyn ni wedi helpu dros 600 o gwmnïau, sy'n destament i'r ddarpariaeth eang, unigryw sydd gan LML i'w gynnig. Rydyn ni'n falch iawn bod gennym gyfleuster llewyrchus, o safon fyd-eang yng Nghymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:
**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014